

## Cyflwyniad i Ddeddf Adalw ASau 2015

---

Cyflwynodd Deddf Adalw ASau 2015 broses lle gall AS gollu ei sedd yn Nhŷ'r Cyffredin os bydd deiseb lwyddiannus i'w adalw.

Mae'r Ddeddf yn nodi'r amodau ar gyfer cychwyn deiseb adalw a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal deiseb. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno rheolau sy'n rheoli pobl a sefydliadau sy'n ymgyrchu o blaid neu yn erbyn deiseb adalw.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'r prif reolau ynghylch deisebau adalw.

## Y daflen ffeithiau hon

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio:

- pryd y daeth Deddf Adalw ASau 2015 i rym
- sut y gellir cychwyn deiseb adalw
- crynodeb o'r rolau sy'n gysylltiedig â deiseb adalw
- ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

## Beth yw prif reolau'r Ddeddf?

Ceir rheolau ynghylch y canlynol:

- pryd y gall deiseb adalw ddigwydd
- faint y gall ymgyrchwyr ei wario ar ymgyrch deisebau
- cael rhoddion

## Pryd daeth y Ddeddf i rym?

Daeth Deddf Adalw ASau 2015 i rym ar 4 Mawrth 2016.

## Pryd y gellir cychwyn deiseb adalw?

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno proses sy'n nodi y bydd AS yn colli ei sedd yn Nhŷ'r Cyffredin os bydd deiseb i'w adalw yn llwyddiannus.

Bydd y Swyddog Deisebau yn agor deiseb adalw ar ôl i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin ei hysbysu bod y canlynol wedi digwydd i AS:

- mae wedi cael ei euogfarnu o drosedd ac wedi cael dedfryd o garchar (yn cynnwys dedfryd ohiriedig) neu wedi'i orchymyn i

gael ei gadw yn y ddalfa, heblaw o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl yn unig

- mae wedi cael ei wahardd o Dŷ'r Cyffredin am 10 diwrnod eistedd neu 14 o ddiwrnodau calendr, neu
- mae wedi cael ei euogfarnu o ddarparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar gyfer hawliadau lwfans o dan Ddeddf Safonau Seneddol 2009.

Yn achos cyhuddiad, ni chaiff y ddeiseb adalw ei hagor oni fydd y cyfnod apelio wedi dod i ben heb i'r euogfarn, y ddedfryd neu'r gorchymyn fod wedi cael ei (g)wrthdroi neu heb i bob apêl gael ei chlywed a'i gwrthod.

Ar ôl i Swyddog Deisebau agor deiseb adalw, bydd ar agor i'w llofnodi am 6 wythnos. Os bydd o leiaf 10% o'r etholaeth yn llofnodi'r ddeiseb, bydd yr AS yn colli ei sedd a chaiff is-etholiad ei gychwyn. Gall yr AS a gafodd ei adalw sefyll fel ymgeisydd yn yr is-etholiad.

Os bydd un o'r amodau uchod wedi'i fodloni ond:

- caiff etholiad cyffredinol Senedd y DU ei gynnal o fewn y 6 mis nesaf
- mae deiseb adalw eisoes yn cael ei chynnal mewn perthynas â'r AS, neu
- mae sedd yr AS eisoes yn wag

ni fydd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn hysbysu'r Swyddog Deisebau ac ni chaiff deiseb adalw ei hagor.

Bydd y ddeiseb ar agor i'w llofnodi am 6 wythnos. Fodd bynnag, caiff ei therfynu'n gynnar os:

- bydd sedd yr AS yn mynd yn wag am unrhyw reswm arall (fel ymddiswyddiad)

- caiff euogfarn, dedfryd o garchar neu orchymyn cadw'r AS ei (g)wrthdroi, neu
- bydd y Senedd yn galw etholiad cyffredinol Senedd y DU yn gynnar a gaiff ei gynnal o fewn 6 mis i hysbysiad y Llefarydd

## Rolau

Rôl y Comisiwn Etholiadol yn y broses yw:

- rhoi cyngor a chanllawiau er mwyn helpu pobl i ddeall y rheolau
- fforffedu rhoddion nas caniateir, os bydd yn angenrheidiol yn ôl gorchymyn llys
- cyhoeddi adroddiad ar unrhyw faterion yn ymwneud â gweinyddu deiseb adalw a'r fframwaith ar gyfer gwariant ar ymgyrchu a rhoddion yn y digwyddiadau hyn.

Rôl y Swyddog Deisebau yw:

- agor deiseb adalw
- hysbysu etholwyr bod deiseb adalw wedi'i hagor
- goruchwyllo'r gwaith o weinyddu'r ddeiseb, yn cynnwys cyhoeddi cofrestr o etholwyr a all lofnodi'r ddeiseb a hysbysu'r etholwyr hynny am y ddeiseb
- cyhoeddi'r canlyniad, yn cynnwys hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
- derbyn ffurflenni rhoddion a gwariant a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

Yr un yw'r Swyddog Deisebau a'r Swyddog Canlyniadau mewn etholaeth.

Rôl yr heddlu yw:

- ymchwilio i achosion o dorri'r gyfraith
- gorfodi cydymffurfiaeth â'r gyfraith

## Cyfyngiadau ar adrodd

Mae cyfraith etholiadol yn atal:

- cyhoeddi unrhyw ddatganiad a allai ddynodi a yw unigolyn wedi llofnodi'r ddeiseb ai peidio
- unrhyw ragolygon am ganlyniad y ddeiseb
- cyhoeddi arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio cyn diwedd diwrnod olaf y cyfnod llofnodi

Byddai unrhyw un sy'n gwneud datganiad ar y nifer a bleidleisiodd neu ar unigolion sy'n llofnodi'r ddeiseb yn euog o drosedd.

## Sut y caiff ymgyrchwyr deisebau eu rheoleiddio?

Efallai y bydd pobl neu sefydliadau am ymgyrchu o blaid neu yn erbyn y ddeiseb adalw. Mae'r Ddeddf yn nodi rheolau ar gyfer rhoddion a gwariant ar ymgyrchoedd deisebau. Bydd adeg benodol pan fydd y rheolau ar wariant a rhoddion yn gymwys. Gelwir hyn yn 'gyfnod a reoleiddir'. Bydd y cyfnod a reoleiddir:

- yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i Llefarydd Tŷ'r Cyffredin hysbysu'r Swyddog Deisebau bod yr amodau ar gyfer agor deiseb wedi cael eu bodloni ac
- yn dod i ben ar y diwrnod y bydd y Swyddog Deisebau yn hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin o ganlyniad y ddeiseb.

## Y rheolau ar wariant

Mae dau fath o ymgyrchwyr; ymgyrchwyr 'cofrestedig' ac 'anghofrestredig'. Yn ystod y cyfnod a reoleiddir, mae'r terfynau gwariant fel a ganlyn:

- £500 ar gyfer ymgyrchwyr anghofrestredig
- £10,000 ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig

Gall unigolyn neu sefydliad cymwys gofrestru drwy hysbysu'r Swyddog Deisebau yn ysgrifenedig. Gallwch ond fod yn ymgyrchydd cofrestredig os ydych yn:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU, neu sy'n preswyllo yn y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU (gan gynnwys pleidiau 'llai')
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar, diwydiannol neu ddarvoudus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig hefyd hysbysu'r Swyddog Deisebau am 'unigolyn cyfrifol'. Yr unigolyn

hwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymgyrchydd cofrestredig yn dilyn y rheolau ar wariant, rhoddion ac adrodd.

Os bydd ymgyrchydd yn mynd i wariant fel rhan o gynllun ar y cyd ag un ymgyrchydd arall neu fwy, bydd y gwariant hwnnw yn cyfrif tuag at derfyn gwariant pob ymgyrchydd sy'n rhan o'r trefniant.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno ffurflen gwariant, sy'n nodi manylion rhoddion a gwariant, i'r Swyddog Deisebau. Rhaid i'r ffurflen gael ei chyflwyno o fewn 30 diwrnod i'r diwrnod ar ôl i'r Swyddog Deisebau hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin o ganlyniad y ddeiseb.

Gweler ein [canllawiau ar wariant a rhoddion](#) i gael rhagor o wybodaeth am y rheolau ar wariant.

## Y rheolau ar roddion

Mae ymgyrchwyr cofrestredig yn ddarostyngedig i reolau ar roddion a gânt i'w gwario ar ymgyrchoedd deisebau. Rhaid i roddion o fwy na £500 ddod o ffynhonnell a ganiateir. Mae ffynonellau a ganiateir yn cynnwys:

- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU (gan gynnwys pleidiau 'llai')
- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai sy'n gadael cymynroddion
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU

- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU yn gyfan gwbl neu'n bennaf

Mae gan ymgyrchwyr 30 diwrnod ar ôl iddynt gael unrhyw roddion i gadarnhau eu bod yn rhai a ganiateir. Rhaid i ymgyrchwyr ddychwelyd unrhyw roddion nas caniateir. Os na fydd ymgyrchydd yn dychwelyd y rhodd o fewn yr amser hwn, tybir ei fod wedi'i derbyn. Gall hefyd fod yn destun camau gorfodi os yw'r rhodd yn dod o ffynhonnell nas caniateir, a gall y Comisiwn wneud cais i'r rhodd gael ei ffordedu.

Nid yw ymgyrchwyr cofrestredig sy'n bleidiau gwleidyddol cofrestredig (ac eithrio pleidiau llai) yn rhoi gwybod i'r Swyddog Deisebau am roddion. Yn hytrach, maent yn rhoi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol am y rhoddion hynny. Rhaid i bob ymgyrchydd cofrestredig arall gynnwys unrhyw roddion sy'n fwy na £500, gan gynnwys rhoddion nas caniateir, ar y ffurflen gwariant a gyflwynir i'r Swyddog Deisebau.

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'r prif reolau. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau llawn i ymgyrchwyr deisebau ar [wariant a rhoddion](#) ac [argraffnodau](#).

## Manylion cyswllt

Gallwch gysylltu â ni i gael cyngor ar wariant a rhoddion ac argraffnodau gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Cysylltwch â'r Swyddog Deisebau i gael manylion ar sut i gofrestru.

Ffoniwch ni ar 0333 103 1928 neu 0333 103 1929 (Cymru)

Neu e-bostiwch

- Cymru: [gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)
- Lloegr: [pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)
- Yr Alban: [infoscotland@electoralcommission.org.uk](mailto:infoscotland@electoralcommission.org.uk)
- Gogledd Iwerddon: [infonorthernireland@electoralcommission.org.uk](mailto:infonorthernireland@electoralcommission.org.uk)

Ewch i

<http://www.comisiwnetholiadol.org.uk>

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – e-bostiwch ni yn: [pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk).